OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2014 Rhif 711 (Cy. 78)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 7, Cyfnewidfa'r Orsedd i Ffin Cymru/Lloegr, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2014

Gwnaed	*17 Mawrth 2014*
Yn dod i rym	*24 Mawrth 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe - Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Mawrth 2014. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 7, Cyfnewidfa'r Orsedd i Ffin Cymru/Lloegr, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2014.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn :

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn, a chan y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 24 Mawrth 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n

ymestyn o gychwyn trwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyffordd 7, Cyfnewidfa'r Orsedd i Ffin Cymru/Lloegr.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd.

Cymhwyso

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y cyfeirir ato yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 17 Mawrth 2014

R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.